Cyswllt Amgylchedd Cymru | Wales Environment Link

green alliance...






Llywio Adferiad Amgylcheddol yn y Seithfed Senedd

Deddf yr Amgylchedd Newydd
Haf 2026

Roedd Deddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026 ymhlith y Biliau olaf a basiwyd gan y Chweched Senedd. Mae'n creu fframwaith cydnerth ac uchelgeisiol i gryfhau llywodraethiant amgylcheddol, a llywio camau gweithredu dros amgylchedd iachach.





Mae angen y gyfraith newydd yn enbyd: mae bywyd gwyllt Cymru yn dirywio'n gyflym, mae ein hafonydd a'n moroedd wedi'u llygru, ac nid yw'n hawdd i bobl herio'r awdurdodau pan fyddant yn gweld pethau'n mynd o'i le.

Bydd y broses o weithredu'r Ddeddf newydd yn dechrau dan wyliadwriaeth y Seithfed Senedd. Mae'r papur briffio hwn yn amlinellu'r hyn y mae angen i Aelodau'r Senedd ei wneud yn ystod y misoedd nesaf i sicrhau bod y Ddeddf newydd yn llwyddiant. Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru a'r Gynghrair Werdd yma i helpu.



Darpariaethau allweddol

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'r Senedd weithredu. Mae iddi dair rhan, sydd â'r nod o integreiddio ffyrdd o feddwl am yr amgylchedd yn well i bolisïau; dwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif am gydymffurfedd a chyflawniad amgylcheddol; a chynyddu uchelgais a chamau gweithredu dros natur:

Mae **Rhan 1** yn cynnwys Egwyddorion Amgylcheddol yng Nghyfraith Cymru, egwyddorion y mae'n rhaid eu cymhwyso i'r broses o lunio polisïau.

Mae **Rhan 2** yn sefydlu Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru.

Mae **Rhan 3** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod targedau bioamrywiaeth sy'n rhwymo mewn cyfraith, a'u cyflawni.



Rhan 1 – Egwyddorion Amgylcheddol

Mae'r Ddeddf yn nodi amcan amgylcheddol lefel uchel: cyflawni ar lefel uchel wrth ddiogelu a gwella'r amgylchedd.

Mae hefyd yn nodi ein pedair egwyddor amgylcheddol graidd:

- Rhagofal
- Atal
- Cywiro yn y tardd, a'r
- Llygrydd i dalu



Mae'n ofynnol i Weinidogion a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) roi 'sylw arbennig' i'r pedair egwyddor wrth lunio polisi, ac i integreiddio elfennau diogelu'r amgylchedd i'r broses o lunio polisïau. Mae yna ddyletswyddau tebyg ar gyrff cyhoeddus eraill. Dylai cymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol sicrhau bod y broses o lunio polisïau o fudd i'r amgylchedd, neu o leiaf nad yw'n ei niweidio.

Rhaid i Weinidogion gyhoeddi 'Datganiad egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio prosesau diogelu'r amgylchedd' ('y Datganiad') i gefnogi'r broses o weithredu'r dyletswyddau hyn.

Materion Allweddol ar gyfer y Senedd hon:

- Mae'r ddyletswydd i roi sylw arbennig i'r egwyddorion yn dechrau ar unwaith, gan roi cyfle i'r ASau alw ar y Gweinidogion i esbonio sut y cafodd hyn ei wneud pan gaiff polisïau eu dwyn ymlaen.
- Ddiwedd 2026/ddechrau 2027, bydd y Senedd yn cael y cyfle i wneud argymhellion mewn perthynas â drafft o'r Datganiad. Rhaid i'r datganiad terfynol gael ei gyflwyno i'r Senedd erbyn 31ain Mawrth 2027.



Rhan 2 – Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru (SLlAC)

Bydd y SLlAC yn gorff newydd, annibynnol sydd â'r cylch gorchwyl o sicrhau bod cyfreithiau amgylcheddol Cymru yn effeithiol ac yn addas i'r diben, a bod awdurdodau cyhoeddus, megis Gweinidogion Cymru, CNC ac Awdurdodau Lleol, yn dilyn y cyfreithiau hyn. Bydd yn chwarae'r rhan y mae Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd (OEP) yn ei chwarae yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac y mae Safonau Amgylcheddol yr Alban (ESS) yn ei chwarae yn yr Alban.



Mae'r Ddeddf yn sicrhau mynediad i ddinasyddion at gyfiawnder amgylcheddol trwy alluogi pobl i gyflwyno sylwadau i'r SLlAC os ydynt yn gofidio bod cyfreithiau amgylcheddol yn cael eu torri, nad ydynt yn effeithiol, neu nad ydynt yn cael eu gweithredu'n iawn.

Gan ddefnyddio ei phŵer o dan y Ddeddf, bydd y SLlAC yn gwneud y canlynol:

- **Monitro, adrodd a chynghori** mewn perthynas â'r gyfraith amgylcheddol a'i gweithrediad;
- **Ymchwilio** i achosion o beidio â chydymffurfio â'r gyfraith amgylcheddol;
- **Cymryd camau gorfodi** – defnyddio system uwchgyfeirio sy'n dechrau gydag ymgysylltu a chyd-drafod ag awdurdodau lleol ac sydd, o bosibl, yn gorffen trwy wneud cais i'r Uchel Lys; a
- **Llunio Adroddiadau Gwelliant** – am y modd y gall effeithiolrwydd, dulliau gweithredu, neu'r gyfraith ei hun, gael eu gwella.





Materion Allweddol ar gyfer y Senedd hon:

- **Sefydlu'r SLlAC** – bydd diwydrwydd o du Aelodau'r Senedd yn allweddol i wthio Llywodraeth Cymru i fodloni'r amserlen 24-mis a nodir yn y Ddeddf. Ni ddylid caniatau i'r Llywodraeth lusgo ei thraed am fod Cymru eisoes wedi aros wyth mlynedd i gyrraedd y fan hon.
- **Penodiadau** – bydd Aelodau'r Senedd yn chwarae rhan yn y broses o benodi'r Prif Weithredwr, y Cadeirydd, a'r Is-gadeirydd cyntaf, yn ogystal ag aelodau anweithredol eraill y SLlAC.
- **Busnes anorffenedig** – ni chafwyd caniatâd gan Weinidogion y DU i'r SLlAC oruchwylio proses awdurdodau lleol neilltuedig, megis Ystad y Goron neu Network Rail, o gyflawni cyfraith amgylcheddol yng Nghymru. Rhaid mynd i'r afael â hyn cyn gynted â phosibl er mwyn osgoi bwlch parhaus o ran llywodraethiant a safonau dwbl.







Rhan 3 – Targedau Bioamrywiaeth

Mae'r rhan hon yn creu fframwaith i lunio a chyflawni targedau bioamrywiaeth sy'n rhwymo mewn cyfraith ac a fydd yn galluogi'r Senedd i ddwyn Gweinidogion i gyfrif am wella cyflwr natur Cymru.

Rhaid i Weinidogion lunio rheoliadau a gosod y targedau cyntaf erbyn 27ain Ebrill 2028, ac mae ganddynt ddyletswydd i sicrhau bod y targedau'n cael eu cyflawni.

Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi gofynion manwl ar gyfer Cynllun Bioamrywiaeth Gweinidogion Cymru. Pan fydd y Targedau Bioamrywiaeth cyntaf ar waith, rhaid i'r Cynllun nodi pa gamau gweithredu a fydd yn cael eu cymryd i'w cyflawni. Rhaid i'r Cynllun fynd i'r afael â meysydd cyfrifoldeb pob un o Weinidogion Cymru.



Bob tair blynedd, mae rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi Adroddiadau Bioamrywiaeth ar gynnydd, ynghyd ag Adroddiad Gwerthuso ar effeithiolrwydd eu Cynlluniau Bioamrywiaeth.



Materion Allweddol ar gyfer y Senedd hon:

- Y dyddiad cau ar gyfer **gosod y Targedau Bioamrywiaeth cyntaf** yw Gwanwyn 2028. Rhaid i'r Gweinidogion gael cyngor annibynnol, ac rydym yn disgwyl ymgynghoriad ar y rheoliadau drafft cyn y gofynnir i'r Senedd eu cymeradwyo trwy'r weithdrefn gadarnhaol.
- Bydd angen i'r Gweinidogion lunio **Cynllun Bioamrywiaeth newydd**, a bydd yn rhaid i'r Cynllun hwn nodi pa gamau a gymerir – a phryd – i sicrhau bod y targedau newydd yn cael eu cyflawni, a bodloni'r Weledigaeth Fyd-eang o adfer bioamrywiaeth, er budd pawb, erbyn 2050. Bydd yn hanfodol craffu ar y Senedd i sicrhau bod y cynllun newydd yn pennu llwybrau clir i stopio'r broses o golli bioamrywiaeth a llywio ei adferiad.
- **Bod yn llais dros fioamrywiaeth yn y Senedd** – mae natur yn effeithio ar sawl agwedd ein bywydau yng Nghymru, ac mae'n gynhenid nid yn unig i'n hamgylchedd ond i'n heconomi, ein cymdeithas a'n diwylliant. Rydym yma i'ch helpu i gyflwyno'r achos. Cadwch olwg am raglen Hyrwyddwr Natur Cyswllt Amgylchedd Cymru i ddysgu rhagor.

Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru yn rhwydwaith o Sefydliadau Anllywodraethol ym meysydd yr amgylchedd, cefn gwlad a threftadaeth yng Nghymru. Ein gweledigaeth yw amgylchedd ffyniannus yng Nghymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r Gynghrair Werdd yn elusen ac yn felin drafod annibynnol sy'n ffocysu ar arweinyddiaeth uchelgeisiol ar gyfer yr amgylchedd.

Wales Environment Link (WEL) is a network of environment, countryside and heritage Non-Governmental Organisations in Wales. Our vision is a thriving Welsh environment for future generations.

Green Alliance is an independent think tank and charity focused on ambitious leadership for the environment.

BMC Cyngor Mynydda Prydain
BRITISH ECOLOGICAL SOCIETY
Butterfly Conservation
CAMPAIGN for NATIONAL PARKS
YMGYRCH y PARCIAU CENEDLAETHOL
afonydd cymru caring for welsh rivers
amphibian and reptile conservation
Bat Conservation Trust
BEAVER TRUST
CoedLleol SmallWoods
Ymddiriedolaeth Cwm Elan Elan Valley Trust
Freshwater Habitats Trust
caduch keep cymrun wales daclus tidy
buglife
Bumblebee Conservation Trust
CIEEM
ClientEarth
COED CADW WOODLAND TRUST
REWILDING BRITAIN
RIVERACTION
RSPB CYMRU
SURFERS AGAINST SEWAGE
MARINE CONSERVATION SOCIETY
Ymddiriedolaeth Genedlaethol National Trust
Open Spaces Society
Plantlife Cymru
RAMBLERS CYMRU
Wildlife Trusts Wales Ymddiriedolaethau Natur Cymru
WWF
YDCW CPRW
yha
Cymdeithas Eryri Snowdonia Society
Soil Association CYMRU
TIR NATUR
WildFish.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â tessa@waleslink.org neu ewch i www.waleslink.org

For more information please contact tessa@waleslink.org or visit www.waleslink.org